Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Ionawr 2013

# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

1. Ar 28 Ionawr 2013, cafodd Bil Llywodraeth, 'Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

2. Ar 22 Ionawr 2013, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 21 Mehefin 2013.

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 18 Hydref 2013, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.